

21 Mai 2014

Ms P Price
Rheolwr Arolygiad
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Annwyl Ms Price

Par: Llythyr Rheoli gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ynghylch Ysbyty Bae Caerdydd ar gyfer yr ymweliad yn Ebrill 2014

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ebrill, yn dilyn ymweliad dirybudd ag Ysbyty Bae Caerdydd ar 23 Ebrill 2014.

Gofynasoch i mi ysgrifennu yn ôl atoch erbyn 21 Mai 2014 i godi unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb ffeithiol, i'ch hysbysu am unrhyw sylwadau sydd gennym mewn ymateb i'ch llythyr ac i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd.

Yn gyntaf, diolch i chi a'ch tîm am eich parodrwydd i ddeall y sefyllfa o ran y newidiadau i'n henw a'n harwyddion. Achosodd y rhain rai anawsterau yn ystod eich ymweliad ac, fel y trafodwyd, bu hynny o gymorth yn y pen draw i gyflymu ein gwaith i wneud y newidiadau angenrheidiol i'n dogfennaeth a'n heiddo.

Materion o ran cywirdeb ffeithiol

Nid oedd unrhyw faterion o ran anghywirdeb ffeithiol yn y llythyr.

Sylwadau

Roedd eich llythyr dyddiedig 29 Ebrill 2014 yn adlewyrchiad teg iawn o'n trafodaethau. Nid oes ond ambell fater i'w egluro ac fe wnaethom drafod y rhain yn eich ymweliad pellach ar 8 Mai ac yn ein sgwrs ffôn ar 19 Mai.

- Par: Cynlluniau gweithredu mewn ymateb i awdit, cwynion a digwyddiadau – ceir sylw sy'n awgrymu nad yw cofnodion yn cael eu cadw ymhob achos.
- Hoffem egluro fod cynlluniau gweithredu a dilyniant yn cael eu cofnodi ymhob achos yn dilyn awdit, cwynion ysgrifenedig a phob digwyddiad ond y gwnaed y pwynt a nodwyd er mwyn pwysleisio y gall mân bryder gan glaf, nad yw'n cael ei dderbyn yn ysgrifenedig, gael ei ddatrys yn anffurfiol yn achlysurol trwy weithredu yn syth yn ystod arhosiad y claf yn ein hysbyty ac yn yr achosion hyn nad ydym bob amser yn cofnodi'r hyn a wneir.
- Yn ystod ymweliad eich tîm ag Ysbyty Vale ar 9 Mai, dangoswyd manylion o'r holl ddogfennaeth a gedwir ar ein system Clinical SharePoint i'ch tîm adolygu a gobeithio eich bod yn fodlon ar ein heglurhad ar y mater hwn.

Cynllun Gweithredu

Otadaf gynllun gweithredu at y llythyr hwn sy'n mynd i'r afael â phob un o'r pwyntiau gweithredu penodol a godwyd ac sy'n rhoi manylion diweddaraf ein hymatebion a'r gweithredoedd a gyflawnwyd ers eich ymweliad a'r trefniadau rheolaethol parhaus a fydd yn cael sylw.

Argymhellion arferion da

Fe wnaethoch godi dau faes: Hyfforddiant blynyddol mewn Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer yr holl staff perthnasol a systemau ffurfiol ar gyfer Goruchwyliaeth Glinigol.

1. Gallaf gadarnhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant o leiaf unwaith y flwyddyn mewn rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys staff banc wrth ymgynefino a thrwy ein prosesau mabwysiadu a llofnodi polisïau ond, yn wyneb y ffaith eich bod wedi codi'r materion hyn, ein bod wedi dechrau sesiynau hyfforddi mwy rheolaidd sy'n cael eu rhedeg yn lleol gan ein Fferyllydd ar gyfer pob staff perthnasol. Rydym hefyd yn adolygu ein Polisi Gweithredu Safonol Lleol mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ystod eich ymweliad.
2. Mae'r egwyddorion tu ôl i Oruchwyliaeth Glinigol ffurfiol wedi ymwreiddio'n bendant yn y systemau a'r prosesau Llywodraethu Clinigol yn yr ysbytai yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae ein proses awdit clinigol rheolaidd a gorfodol yn cefnogi blaenoriaethu ansawdd clinigol ym mhopeth a wnawn ac yn nodi cyfrifoldebau unigol o fewn system glir o atebolrwydd a chyfrifoldeb.
 - a. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yr unigolyn yn cael ei adolygu'n unigol gyda phob aelod o'r timau clinigol o leiaf unwaith y flwyddyn a hynny'n barhaus. Rydym hefyd yn annog pob tîm a staff nyrsio a chlinigol i fyfyrwyr ar eu hymarfer ar sail adolygiadau achosion unigol ar gyfer pob claf. Rydym hefyd yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol unigolion trwy gyrsiau proffesiynol eraill mewn Prifysgol a sefydliadau eraill.
 - b. Yn ddiweddar iawn, mae Ysbytai Nuffield Health yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi ymrwmo i'r ymgyrch "Dweud eich Dweud yn Ddiogel" gan mai grŵp Nuffield Health yw'r darparwr ysbytai annibynnol cyntaf i gefnogi'r fenter diogelwch dan arweiniad nyrsys sy'n canfod gwell ffyrdd o amddiffyn cleifion a defnyddwyr a gofalu'n ddiogel yn ein hysbytai.

Fel y trafodwyd gennym, rydym yn disgwyl yr ohebiaeth bellach ynghylch yr adolygiad ar 8 Mai o'n gwasanaethau rheoli cyfleusterau a gwasanaethau anghlinigol a byddwn yn adolygu ac ymateb i unrhyw faterion a godir maes o law.

Os oes unrhyw faterion yn sefyll sydd angen eu trafod neu os oes gwybodaeth i'w chyflwyno, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir iawn

Simon Rogers

Cyfarwyddwr Ysbyty

copïau: T Atter (Rheolwr Cofrestredig – Bae Caerdydd), K Harrowing (Cyfarwyddwr Systemau Ansawdd y Grŵp)

Atodiad – Adroddiad a Chynllun Gweithredu ar gyfer Polisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediadau Penodol i Nuffield Health

Ysbytai Caerdydd a'r Fro, Nuffield Health

Adroddiad yn dilyn ymweliadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Ebrill / Mai 2014

Hwyluswr Adolygiad Enwebedig, Cyfarwyddwr Ysbytai Caerdydd a'r Fro, Nuffield Health

Argymhelliad	Cydymffurfriad	Gweithredu sydd ei Angen	Cyfrifoldeb ac Amserlenni	Trefniadau Monitro (Pwyllgor a phroses)	Dyddiad Cwblhau'r Weithred
1. Polisiâu Nuffield Health yw'r rhai a ddefnyddir ac nid ydynt wedi cael eu haddasu i'w defnyddio'n lleol. Roedd angen adolygu'r amserlen ar gyfer rhai polisiâu hefyd.	Yn cydymffurfio	1. Anfon pob polisi at Benaethiaid Adran i'w adolygu a diwygiadau priodol ar gyfer eu cymhwyso'n lleol: 2. Cwblhau'r adolygiad o'r broses bresennol o rannu polisiâu: 3. Rhannu â phob aelod o staff ganllawiau i ddefnyddwyr ar ffurf siart llif ar bolisiâu 4. Pennaeth pob adran i adolygu trefniadau gweithredu safonol lleol a diweddarau'r copïau caled. Adolygir y broses i sicrhau bod y broses yn cael ei monitro.	Penaethiaid Adran 1 mis i gael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Integredig 13 Mehefin 2014 Cydlynnydd Polisi Wedi cwblhau'r weithred gychwynnol Cydlynnydd Polisi sy'n gyfrifol: Penaethiaid Adran i gadarnhau gallu'r staff i weithredu yn syth Gweithredu gan Benaethiaid Adran yn syth Proses Adolygu Barhaus gan y Cydlynnydd Polisi	Uwch Reolwr i adolygu cynnydd. Pob polisi a adolygwyd/diwygiwyd ac a gwblhawyd i gael ei gytuno/cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig. Y Pwyllgor i'w adolygu yn ei gyfarfod nesaf Y Pwyllgor i'w hadolygu yn ei gyfarfod nesaf i sicrhau cydymffurfriad a dealltwriaeth Y Pwyllgor i adolygu pob polisi a adolygwyd gan Benaethiaid Adran ar gyfer eu cadarnhau a'u lanlwytho: Cydlynnydd Polisi i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig unrhyw adolygiadau o drefniadau gweithredu safonol lleol sydd ar y gweill	Agored – i'w chwblhau 13 Mehefin 2014 Fel uchod Gweithred wedi'i chwblhau: Pwyllgor Llywodraethu Integredig i'w hadolygu Parhaus

Cyfeirnod/Teitl: Gov 15 – Atodiad B i Bolisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediadau Penodol i Nuffield Health (Cyfyngedig i randdeiliaid mewnol ac allanol perthnasol sy'n cymryd rhan yn yr achreidiad/arolygiad)

Awdur y Polisi: Sue Edy, Rheolwr Perfformiad Clinigol		Noddwr y Polisi: Dr Andrew Jones, Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp	
Awdur lleol: Simon Rogers, Cyfarwyddwr Ysbytai, Ysbytai Caerdydd a'r Fro, Nuffield Health			
Dyddiad Cadarnhau'r Polisi: 03/08/11 Dyddiad Cymeradwyo Lleol ar gyfer cynllun gweithredu: 20 Mai 2014		Cadarnhawyd y Polisi gan: Pwyllgor Llywodraethu Integredig y Grŵp	
Dyddiad Cyflwyno'r Polisi: 11/08/11	Dyddiad Adolygu'r Polisi: 08/ 2014 (yn lleol yn ôl y cynllun uchod)	Fersiwn: 1.0 Fersiwn lleol y cynllun: HIW 210514	Tudalen 1 o 3

Atodiad – Adroddiad a Chynllun Gweithredu ar gyfer Polisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediadau Penodol i Nuffield Health

Argymhelliad	Cydymffurfriad	Gweithredu sydd ei Angen	Cyfrifoldeb ac Amserlenni	Trefniadau Monitro (Pwyllgor a phroses)	Dyddiad Cwblhau'r Weithred
2. Nid oedd y Polisi Amddiffyn Plant ar gael ar fewnwyd Nuffield Health.	Yn cydymffurfio	1. Mae'r Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer dau Ysbyty Nuffield Health ac yn lleol ar gyfer Ysbytai Caerdydd a'r Fro yn awr ar gael ar y fewnwyd a gall pob aelod o staff ei weld. 2. Mae'r Polisi Amddiffyn Plant perthnasol a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwr yr Ysbyty a Phennaeth y Gwasanaethau Clinigol. 3. Mae ffeil polisiâu plant ar wahân sydd wedi'i diweddarau yn awr yn cael ei chadw yn Ysbyty Bae Caerdydd ac Ysbyty Vale a gall pob aelod o staff ei gweld.	Metron a Chyfarwyddwr yr Ysbyty, wedi'i gyflawni	Y Pwyllgor Llywodraethu Integredig i'w adolygu ar 13 Mehefin 2014	Wedi'i chwblhau, ei chytuno a'i thrafod ag AGIC yn yr ymweliad ar 9 Mai

Cyfeirnod/Teitl: Gov 15 – Atodiad B i Bolisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediadau Penodol i Nuffield Health (Cyfyngedig i randdeiliaid mewnol ac allanol perthnasol sy'n cymryd rhan yn yr achreidiad/arolygiad)			
Awdur y Polisi: Sue Edy, Rheolwr Perfformiad Clinigol Awdur lleol: Simon Rogers, Cyfarwyddwr Ysbytai, Ysbytai Caerdydd a'r Fro, Nuffield Health		Noddwr y Polisi: Dr Andrew Jones, Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp	
Dyddiad Cadarnhau'r Polisi: 03/08/11 Dyddiad Cymeradwyo Lleol ar gyfer cynllun gweithredu: 20 Mai 2014		Cadarnhawyd y Polisi gan: Pwyllgor Llywodraethu Integredig y Grŵp	
Dyddiad Cyflwyno'r Polisi: 11/08/11	Dyddiad Adolygu'r Polisi: 08/ 2014 (yn lleol yn ôl y cynllun uchod)	Fersiwn: 1.0 Fersiwn lleol y cynllun: HIW 210514	Tudalen 2 o 3

Atodiad – Adroddiad a Chynllun Gweithredu ar gyfer Polisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediau Penodol i Nuffield Health

Argymhelliad	Cydymffurfriad	Gweithredu sydd ei Angen	Cyfrifoldeb ac Amserlenni	Trefniadau Monitro (Pwyllgor a phroses)	Dyddiad Cwblhau'r Weithred
3. Roedd llofnodion ar goll yn y Llyfr Cofnodion Cyffuriau a Reolir, sydd â thair llinell o lofnodion sy'n ofynnol.	Yn cydymffurfio	1. Mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty a'r Fferylllydd wedi cynnal awdit cynhwysfawr yn dilyn ymweliad AGIC. 2. Rydym wedi mynd i'r afael â materion lle nad oedd cydymffurfriad trwy Drefn Gweithredu Safonol newydd. 3. Mae agenda'r cyfarfod rheoli meddyginiaethau misol wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at adolygu'r llofnodwyr CD awdurdodedig a'r gwiriadau. 4. Mae sesiynau hyfforddiant ychwanegol wedi'u trefnu i bob staff ar wardiau ac mewn theatrau.	Metron a Chyfarwyddwr yr Ysbyty, wedi'i gyflawni	Y Pwyllgor Llywodraethu Integredig i'w adolygu ar 13 Mehefin 2014	Wedi'i chwblhau, 20 Mai 2014

Cyfeirnod/Teitl: Gov 15 – Atodiad B i Bolisi'r Grŵp ar gyfer Rheoli ac Ymateb i Ymweliadau gan Asiantaethau Allanol, Arolygiadau ac Achrediau Penodol i Nuffield Health (Cyfyngedig i randdeiliaid mewnol ac allanol perthnasol sy'n cymryd rhan yn yr achrediad/arolygiad)			
Awdur y Polisi: Sue Edy, Rheolwr Perfformiad Clinigol Awdur lleol: Simon Rogers, Cyfarwyddwr Ysbytai, Ysbytai Caerdydd a'r Fro, Nuffield Health		Noddwr y Polisi: Dr Andrew Jones, Cyfarwyddwr Meddygol y Grŵp	
Dyddiad Cadarnhau'r Polisi: 03/08/11 Dyddiad Cymeradwyo Lleol ar gyfer cynllun gweithredu: 20 Mai 2014		Cadarnhawyd y Polisi gan: Pwyllgor Llywodraethu Integredig y Grŵp	
Dyddiad Cyflwyno'r Polisi: 11/08/11	Dyddiad Adolygu'r Polisi: 08/ 2014 (yn lleol yn ôl y cynllun uchod)	Fersiwn: 1.0 Fersiwn lleol y cynllun: HIW 210514	Tudalen 3 o 3